| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **5 Hydref 2015** |
| **TEITL :** | **Ceisiadau am oddefeb** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Derbyniwyd dau gais am oddefeb gan aelodau o Gyngor Cymuned Bethesda. Atodir copiau o ffurflenni cais y ddau aelod sef y Cynghorwyr Godfrey Northam a Walter Watkin Williams.

2. Mae’r ddau aelod yn gofyn am oddefeb mewn cysylltiad â’r un mater sef trafodaethau ynglyn a throsglwyddo canolfannau lleol o berchnogaeth Cyngor Gwynedd i berchnogaeth y Cyngor Cymuned (neu gorff cymunedol arall). Mae’r Cyng. Northam yn aelod o bwyllgorau Canolfannau Rachub a Chefnfaes a’r Cyng. Williams yn aelod o bwyllgor Canolfan Cefnfaes. Nid ydynt wedi eu penodi ar y pwyllgorau gan y cyngor cymuned.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw’r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o’r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol. Mae’r sefyllfaoedd yma wedi eu rhestri yn y nodiadau amgaeedig. Rhaid i’r Pwyllgor felly ystyries os yw’r ceisiadau yn dod o fewn un o’r sefyllfaoedd hyn.

4. Os yw’n fodlon ei fod yn dod o fewn un o’r categoriau hyn rhaid i’r Pwyllgor wedyn ystyried a ddylid caniatau i’r aelod gael cymryd rhan er bod y Cod Ymddygiad yn darparu na ddylai gael gwneud hynny. Bydd rhaid ystyried y budd cyhoeddus wrth wneud hynny. Mae canllawiau’r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi’r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau:

*“Bydd angen i’r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy’n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau’r awdurdod sy’n weddol gynrychioladol.”*

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y canlynol:

(a) Cais y Cynghorydd Godfrey Northam
(b) Cais y Cynghorydd Walter Watkin Williams